At sylw Cadeirydd Cyngor Gwynedd,
Diolch o galon am eich llythyr yn ddyddiedig 18 Rhagfyr, ac i'r Cyngor yn ehangach am bleidleisio i gefnogi fy ngalwad i sefydlu Ysgol Deintyddiaeth ym Mangor.
Gallaf eich sicrhau fod cael y maen i'r wal â'r ymgyrch hon yn flaenoriaeth imi yn fy ngwaith fel yr Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli dinas Bangor. Mae fy ymdrechion i ddenu sylw i'r ymgyrch bwysig hon dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- **Comisiynu Adroddiad:** Ym mis Medi 2024, fe lansiais yr adroddiad "Llenwi'r Bwlch", sy'n cyflwyno achos cryf dros hyfforddi deintyddion ym Mangor.
- **Lansio Deiseb:** Rwyf wedi llunio deiseb i ennyn cefnogaeth y cyhoedd i'r ysgol ddeintyddol, gan bwysleisio'r angen hanfodol am well mynediad at ofal deintyddol yn y rhanbarth.
- **Arwain Dadl yn y Senedd:** Ar 8 Ionawr, 2025, arweiniais ddadl yn y Senedd, gan gyflwyno cynnig i sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor. Roedd y cynnig yn tynnu sylw at y prinder difrifol o wasanaethau deintyddol y GIG yn Arfon. Yn fy etholaeth dim ond 36.6% o'r boblogaeth sydd â mynediad at ddeintydd GIG—y ganran isaf yng Nghymru.
- **Sicrhau Cefnogaeth Drawsbleidiol:** Cafodd fy nghynnig gefnogaeth drawsbleidiol, ac fe bleidleisiodd y Senedd o blaid sefydlu'r ysgol ddeintyddol.

Rwy'n gobeithio bod y camau y cyfeirir atynt uchod yn dangos yn glir fy ymrwymiad cryf i wella gwasanaethau iechyd deintyddol yng Ngogledd Cymru drwy eirioli dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor.
Diolch unwaith yn rhagor am gysylltu â mi.
Yn gywir,
Siân



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru

Etholaeth **Arfon**
**Arfon** Constituency

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672076

8 Stryd y Castell, CAERNARFON, LL55 1SE

Plaid Cymru
Party of Wales